



Adolygiad Blynyddol

2024/25



YMA I CHI
CBAC.CO.UK



CYNNWYS

01	YMA I CHI	Cefnogi ysgolion a cholegau ledled Cymru	04
02	DARPARU CYMWYSTERAU, ASESIADAU A CHEFNOGAETH FLAENLLAW	Mae taith cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn parhau	08
		Y pecyn cefnogi ar gyfer ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru	10
03	LLUNIO DYFODOL ADDYSG YNG NGHYMRU	Llunio Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 Cymru: Pam mai CBAC yw'r dewis dibynadwy ar gyfer Addysg 14-16?	14
		Gwneud-i-Gymru: Cydnabod amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn	16
04	GWEITHIO GYDA'N GILYDD I WNEUD GWAHANIAETH	Meithrin ein partneriaethau ledled Cymru	20
		Dathlu Mathemategwyr o Gymru: Derbynwyr Bwrsari 2024	22
05	CYDNABOD Y GENHEDLAETH NESAF O ARLOESWYR	Gwobrau Arloesedd: Ysgogi talent ifanc o Gymru	26
06	BUDDSODDI YN EIN POBL A'N PLANED	Meithrin diwylliant o ymwybyddiaeth amgylcheddol	30



Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn drawsnewidiol i'n taith Gwneud-i-Gymru. Mae ein Ton gyntaf o gymwysterau bellach yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru, gyda chefnogaeth ein cyfres lawn o Adnoddau Digidol am ddim y gellir eu haddasu. Ychwanegwyd at y ddarpariaeth gan ein digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ledled Cymru; ac mae'r rhain yn cael eu hategu gan gyfleoedd hyfforddiant ychwanegol yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Gan adeiladu ar y sylfaen hon, rydym wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol arall: derbyniwyd cymeradwyaeth i addysgu ein hail Don o fanylebau Gwneud-i-Gymru o fis Medi 2026. Mae'r cymwysterau hyn yn adlewyrchu ymroddiad ein timau a mewnbwn rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru. Cyd-awduro yw conglfaen ein dull o ddatblygu cymwysterau o hyd, ac rydym yn cyfuno arbenigedd o fyd addysg a diwydiant i sicrhau bod ein cymwysterau yn bodloni anghenion gwirioneddol dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr. Yn ogystal â'n gwaith datblygu, rydym yn dal i gefnogi ysgolion a cholegau gyda'n Dysgu Proffesiynol wedi'i deilwra a'n Hadnoddau Digidol am ddim y gellir eu haddasu, gan alluogi addysgwyr i gyflwyno'r cymwysterau hyn yn hyderus.

Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo eisoes i ddatblygu ein trydedd Don o gymwysterau Gwneud-i-Gymru. Mae'r portffolio amrywiol hwn yn cynnwys Tystysgrifau Galwedigaethol gyda ffocws ar ddiwydiant ar gyfer Addysg Uwchradd, Cyfres Sgiliau a chymhwyster Project Personol sy'n adeiladu ar lwyddiant ein Tystysgrif Her Sgiliau, ochr yn ochr â chymwysterau Sylfaen. Mae Ton 3 yn adeiladu ar ein traddodiad o gyd-awduro drwy ehangu ar ein partneriaethau â diwydiant, gan sicrhau bod y cymwysterau hyn o wir werth yn y farchnad ac yn meithrin cysylltiadau cryfach â'r byd gwaith.

Mae'r Adolygiad Blyneddol hwn yn dangos ein cynnydd parhaus i gyflwyno ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru, cryfhau ein partneriaethau â rhanddeiliaid, dathlu arloesedd a rhagoriaeth, a hybu ein hymrwymiad i weithredu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl diolch i gydweithio a chefnogaeth ragorol. Hoffwn ddiolch i'n hysgolion, colegau a fy nghydweithwyr yn CBAC am eu cefnogaeth amhrisiadwy a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn. Mae eich ymroddiad a'ch cyfraniad wedi bod yn hanfodol i'n llwyddiant. Rwyf yn eich annog i barhau i gymryd rôl weithredol yn ein mentrau parhaus wrth i ni adeiladu ar gyflawniadau'r flwyddyn hon. Rydym wedi ymrwmo'n llwyr i gynnig y lefel uchaf o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad rydych wedi dod i'w ddisgwyl gennym.

Wrth i ni ddathlu blwyddyn eithriadol arall, rydym wedi ymrwmo'n llwyr i gefnogi cymunedau addysgol ledled Cymru. Mae ein hymrwymiad yn golygu bod CBAC yn parhau i fod wrth galon y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a chyflwyno cymwysterau.

Mae'n braf iawn gweld CBAC yn hybu uchelgeisiau cwricwlwm newydd Cymru. Trwy addasu ein cymwysterau a'n hadnoddau i gwrdd â'r amcanion blaengar hyn, rydym yn cadarnhau ein rôl fel y corff dyfarnu dibynadwy yng Nghymru.

Mae CBAC yn parhau i ymateb i anghenion dysgwyr a chymdeithas wrth iddynt newid. Mae datblygiad parhaus ein cymwysterau yn dangos ein hymrwymiad i gynnydd, a sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau a'r ddealltwriaeth mae eu hangen arnynt i ragori'n fyd-eang a chael dyfodol addawol.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Bwrdd yn gwbl hyderus y bydd CBAC yn cryfhau ei drefniadau cydweithio ag addysgwyr a phartneriaid. Rydym bob amser wedi ymrwmo i ddatblygu cymwysterau sydd wedi'u dylunio ar gyfer dysgwyr amrywiol Cymru, gan gryfhau ein dull o gyd-awduro drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd ystyrlon.

Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch o galon i CBAC am ei gyflawniadau eithriadol eleni. Mae ymdrech ac hymrwymiad pawb yn y sefydliad wedi bod yn hanfodol i'n cyflawniadau, gan roi hwb i'n llwyddiant a'n heffaith ym myd addysg.




Jessica Leigh-Jones
Cadeirydd Bwrdd
y Cyfarwyddwyr

Yma i chi: Cefnogi ysgolion a cholegau ledled Cymru

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, rydym yn croesawu'r flwyddyn academiaidd newydd ac yn parhau i ymrwymo i ddarparu cymwysterau cynhwysol dwyieithog, cefnogaeth dan arweiniad arbenigwyr, ac asesu modern, hygyrch i ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Mae dechrau addysgu ein cyfres gyntaf o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig Gwneud-i-Gymru yn garreg filltir allweddol ar y daith hon ac yn cynrychioli ein hymrwymiad parhaus i ragoriaeth addysgol yng Nghymru. Rydym yn deall pa mor bwysig yw sicrhau bod ysgolion a cholegau yn teimlo'n hyderus a'u bod yn derbyn cefnogaeth drwy gydol y cyfnod hwn o newid, ac rydym yma bob cam o'r ffordd.

Mae cydweithio yn dal i fod wrth galon ein dull gweithredu. Mae gennym bartneriaethau cryf gyda chymunedau addysgol ledled Cymru – o ysgolion a cholegau i grwpiau eiriolaeth, pwyllgorau llywodraethu, consortia rhanbarthol, a Cymwysterau Cymru Trwy'r cysylltiadau hyn, rydym yn cefnogi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i ddarparu addysg sy'n hybu '[safonau a dyheadau uchel i bawb](#).'



Fel elusen gofrestredig, rydym yn ailfuddsoddi'n barhaus i wella ein hadnoddau addysgu, gan ehangu amrywiaeth ein cymwysterau, a chynnig cefnogaeth wedi'i phersonoli i fodloni anghenion addysg Cymru sy'n newid.

Dewch i wybod mwy am ein gwaith elusenol:

www.cbac.co.uk/Elusen

CBAC

RHAI YSTADEGAU

Gwnaethom ddyfarnu dros

417,000
O GYMWYSTERAU
YN 2024/25

Rydym yn cynnig bron i

200

O GYMWYSTERAU TGAU,
UG, SAFON UWCH A
CHYMWYSTERAU
GALWEDIGAETHOL

Datblygwyd

1,192
O WERSI UNIGOL

537 O DREFNWYR
GWYBODAETH

325 O UNEDAU
DYSGU CYFUNOL
DWYIEITHOG

21
O WERSLYFRAU

Gwnaethom farcio dros

1.1 MILIWN
O BAPURAU, ASESIAU
DI-ARHOLIAD AC ARHOLIADAU
LLAFAR YN 2024/25



Cymwysterau cynhwysol ar gyfer Cymru fodern

Mae Cymru heddiw yn fywiog, yn amrywiol, ac yn edrych tua'r dyfodol – ac rydym yn sicrhau bod y nodweddion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein cymwysterau. Wrth ddylunio ein hasesiadau rydym yn rhoi lle canolog i gynhwysiant a hygyrchedd, ac yn creu cynnwys sy'n taro deuddeg â dysgwyr ym mhob rhan o'r wlad tra'n dathlu amrywiaeth Cymru a meithrin teimlad o berthyn.

Eich cefnogi o'r dechrau

Mae ein tîm o dros 500 o weithwyr ymroddedig yn dod ag arbenigedd ac angerdd i gefnogi eich taith addysgu. Rydym yn ymfalchïo mewn cynnig cefnogaeth uniongyrchol a chynhwysfawr i athrawon a darlithwyr drwy gydol cylch y cymhwyster – o'r canllaw addysgu cychwynnol i ddyfarnu'r graddau terfynol.

Gwella eich addysgu gyda'n hadnoddau AM DDIM

Rydym yn parhau i gynnig pecyn cynhwysfawr o Adnoddau Digidol dwyieithog AM DDIM i gefnogi'r broses o gyflwyno ein portffolio o gymwysterau sy'n dal i dyfu. Mae pob adnodd wedi'i ddatblygu gan ein Tîm Adnoddau Digidol ymroddedig ynghyd â'n Harbenigwyr Pwnc i sicrhau eu bod yn meithrin y setiau sgiliau angenrheidiol ac yn parhau i ymgysylltu â dysgwyr a'u hysbrydoli.

ADRAN 02

**Darparu
cymwysterau,
asesiadau a
chefnogaeth
flaenllaw**





**Ysgrifennwyd gan
Richard Harry**

Cyfarwyddwr Gweithredol:
Cymwysterau ac Asesu

Mae taith cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn parhau

Wrth i ni ddechrau addysgu Ton gyntaf ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru, mae Richard Harry, Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu yn ystyried y daith gydweithredol sydd wedi llywio datblygiad y cymwysterau hyn.

Mae ein cyfres Gwneud-i-Gymru yn cynrychioli newid sylfaenol i ddatblygiad cymwysterau. Mae'r cymwysterau hyn wedi cael eu llunio o'r gwaelod i fyny, ac maent yn cyd-fynd yn agos iawn â'r Cwricwlwm i Gymru a'i Bedwar Diben. Yn dilyn blynyddoedd o ddatblygiad â ffocws, maent yn rhoi sgiliau go iawn i ddysgwyr drwy'r cynnwys cydlynol a hygyrch sy'n integreiddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hyn yn galluogi athrawon a darlithwyr Cymwysterau ac Asesu i gysylltu gwersi â phrofiadau ystyrlon.

Cyd-awduro drwy bartneriaethau strategol

O'r diwrnod cyntaf, gwnaethom sicrhau bod lleisiau rhanddeiliaid wrth galon ein proses ddatblygu. Cyflwynodd ein grwpiau Cyngori Datblygu Cymwysterau, Rhanddeiliaid, Dysgwyr ac Undebau sylwadau hanfodol a luniodd y cymwysterau hyn o'r cam cyntaf, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd cydweithio â'r cynghorydd gwrth-hiliaeth Rachel Clarke a'r grŵp Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) yn arbennig o werthfawr drwy wella ein proses gynllunio i sicrhau eu bod yn datblygu cyfres o gymwysterau cynhwysol.

Ar wahân i hynny, datgelodd trafodaethau ehangach gyda rhanddeiliaid ystyriaethau cydraddoldeb y gwnaethom fynd i'r afael â nhw drwy roi rheolaethau priodol ar waith ar gyfer pob asesiad di-arholiad, gan sicrhau felly na fyddai dysgwyr o dan anfantais os nad oedd ganddynt fynediad at adnoddau penodol yn y cartref.

Mae gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid wedi ein galluogi i wella ein dealltwriaeth bresennol o dirwedd addysg ddwyieithog unigryw Cymru, gan sicrhau bod ein cymwysterau yn gwasanaethu ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog ledled y wlad.

Cefnogi ein cymuned addysgu

Er mwyn sicrhau bod ein cymuned addysgu yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i gyflwyno'r cymwysterau newydd yn hyderus, gwnaethom gyhoeddi'r manylebau a gymeradwywyd yn yr hydref 2024, ac yna'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a Chanllawiau Addysgu yn ystod y gaeaf hwnnw.

Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, gwnaethom addasu ein llinell amser ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol er mwyn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl adborth a symud TGAU Hanes fel y bydd nawr yn cael ei addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026, gan roi mwy o amser i addysgwyr ymgysylltu â'r cymhwyster newydd.





Yn ogystal â hyn, gwnaethom gyflwyno rhaglen Dysgu Proffesiynol gynhwysfawr gyda chyfleoedd wyneb yn wyneb ac ar-lein a oedd yn addas i amserlenni prysur athrawon a darlithwyr. Roedd ein digwyddiadau 'Paratoi i Addysgu' ledled Cymru yn gyfle i sgwrsio'n uniongyrchol â miloedd o addysgwyr ym mhob rhan o'r wlad, gan ein galluogi i ddangos yr holl gefnogaeth sydd ar gael i hwyluso'r broses o gyflwyno pob cymhwyster, tra'n cynnig mewnwleidiadau a strategaethau ymarferol; gan gynnwys arwain addysgwyr drwy feysydd allweddol fel Asesiadau Di-arholiad.

Roedd ein Hadnoddau Digidol am ddim yn elfen gefnogaeth hanfodol arall, ac yn cynnig cymorth hyblyg, ar alw, i helpu ysgolion i reoli'r cyfnod o newid yn effeithiol. Mae'r adnoddau hyn, a gafodd eu datblygu ar sail adborth gan ysgolion a cholegau, yn cynrychioli rhan o fuddsoddiad gwerth £1.5 miliwn, gan arwain at lunio 325 o becynnau dwyieithog wedi'u teilwra.

Mae pob pecyn yn cynnwys adnoddau Dysgu Cyfunol a Threfnwyr Gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Gellir golygu ac addasu'r rhain yn hawdd ar gyfer cyd-destun unigryw pob ysgol neu goleg, wrth ymateb i gysyniad Cynefin – gan alluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o le a hybu dealltwriaeth o Gymru a sut mae ein diwylliant, pobl a thirwedd yn ymwneud â gweddill y byd.

Ton 3: mae'r daith yn parhau

Gan adeiladu ar y sylfaen hon, mae Ton 3 bellach yn cael ei datblygu, gan gynnig porffolio amrywiol i ddysgwyr a fydd yn ennyn eu diddordeb drwy brofiadau ymarferol a datblygu eu sgiliau. Mae hyn yn cynnwys

Project Personol a Chyfras Sgiliau, yn ogystal â dewis eang o gymwysterau Sylfaen a'r Dystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU).

Gan ddefnyddio ein harbenigedd sefydledig, mae'r cymwysterau hyn yn rhoi blaenoriaeth ar ymgysylltu â dysgwyr tra'n cynnal ein safonau cadarn, gan sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu gyrfaeod yn y dyfodol. Wrth ddatblygu'r Don nesaf, rydym yn parhau i gydweithio ac yn ymestyn ein partneriaethau i gynnwys rhanddeiliaid o fyd diwydiant i ddylunio cymwysterau sy'n rhoi'r sgiliau perthnasol i ddysgwyr ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

Ystyried ein heffaith

Mae cwblhau'r gwaith hwn i greu cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer eu camau nesaf ym myd addysg wedi bod yn hynod o werthfawr. Rydym wedi gweld â'n llygaid ein hunain sut mae'r cymwysterau hyn yn taro deuddeg â dysgwyr, ac mae eu safbwyntiau gwerthfawr wedi ategu rhai athrawon a darlithwyr drwy gydol ein taith ddatblygu.

Diolch i chi am fod yn rhan o'r daith hon. Wrth i ni barhau ar ein taith cymwysterau Gwneud-i-Gymru, rydym yn edrych ymlaen i gydweithio â chi unwaith eto i sicrhau bod ein Ton nesaf o gymwysterau yn parhau i gwrrd ag anghenion dysgwyr Cymru a'u dyfodol.

Dysgwch fwy am ein taith Gwneud-i-Gymru yn: cbac.co.uk/GwneudiGymru

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Y pecyn cefnogi ar gyfer ein Cymwysterau Gwneud-i-Gymru

Wrth i'r Don gyntaf o'n cymwysterau Gwneud-i-Gymru ddechrau cael eu cyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ledled y wlad, rydym yn edrych yn ôl gyda balchder ar ein taith i gefnogi addysgwyr. Trwy ein darpariaeth Dysgu Proffesiynol genedlaethol a'n Hadnoddau Digidol cynhwysfawr, rydym wedi creu pecyn cefnogi cadarn am ddim sy'n galluogi addysgwr i gyflwyno ein cymwysterau yn hyderus.

Dysgu Proffesiynol: Adeiladu arbenigedd yn genedlaethol

Trwy gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol a Chymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG), mae ein rhaglen Dysgu Proffesiynol ledled Cymru.

Cyflwynodd y sioe deithiol genedlaethol:

- 170 o ddigwyddiadau dros 12 diwrnod
- Cefnogaeth ar gyfer lleoliadau addysgol amrywiol gan gynnwys Ysgolion Uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion, Ysgolion Arbennig, ac Ysgolion Annibynnol
- Arweiniad ymarferol a strategaethau gweithredu ar gyfer ein TGAU Gwneud-i-Gymru

Mae effeithiolrwydd y rhaglen yn amlwg yn adborth y cyfranogwyr, a dywedodd 75% o'r rhai a gymerodd ran fod ganddynt ddealltwriaeth 'dda' neu 'arbennig o dda' o'r cymwysterau newydd ar ôl mynychu'r sesiynau.

Mae cymwysterau Ton dau bellach yn cael eu datblygu ac mae ein tîm yn cwblhau rhaglen gefnogaeth gynhwysfawr arall. I gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i gofrestru ar gyfer sesiynau yn y dyfodol, ewch i cbac.co.uk/DPGwneudiGymru.

“Rwy'n hynod o ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid sydd wedi ein helpu i ddarparu'r rhaglen gynhwysfawr hon yn llwyddiannus ledled Cymru. Trwy gydweithio'n effeithiol, rydym wedi cyflawni yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud, a darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol gwerthfawr ledled y wlad. Gyda rhagor o Ddysgu Proffesiynol ton Un ac wedi'i gynllunio a thon Dau ar y gorwel, rwy'n falch o'n cyflawniadau a'r adborth cadarnhaol rydym wedi'i dderbyn gan athrawon a phennaethiaid am ein cefnogaeth wyneb yn wyneb gynhwysfawr.



”

Nia Jones,
Rheolwr Dysgu
Proffesiynol



Melanie Blount,
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol

“

Mae'r adborth ar ein Hadnoddau Gwneud-i-Gymru wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae ein hadnoddau dwyieithog wedi'u llunio gan roi ystyriaeth i'r Cwricwlwm i Gymru, felly gall addysgwyr eu haddasu yn ôl anghenion y lleoliad a'r ystafell ddosbarth – gan greu deunyddiau sy'n taro deuddeg â'u dysgwyr ac yn eu hysbrydoli. Datblygwyd pob adnodd ar y cyd ag arbenigwyr ar y cwricwlwm ledled Cymru a thu hwnt, ac mae pob un yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r testunau newydd a gyflwynwyd yn y cymwysterau hyn.

Adnoddau Digidol AM DDIM:

Buddsoddiad o £1.5 miliwn i gefnogi cymwysterau Gwneud-i-Gymru

Fel rhan o fuddsoddiad o £1.5 miliwn a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru, rydym wedi datblygu 325 o becynnau adnoddau cynhwysfawr. Mae pob pecyn yn cynnwys adnoddau Dysgu Cyfunol a Threfnwyr Gwybodaeth, a luniwyd i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Adnoddau Digidol Gwneud-i-Gymru

Cyflwynir ein Hadnoddau Digidol Gwneud-i-Gymru ar ein gwefan adnoddau bwrpasol; mae'r llwyfan hwn yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer addysgwyr.

Mae'r adnoddau yn cynnig:

- **Nodweddion hawdd eu haddasu ar gyfer dysgu ystyrlon:** Mae'n hawdd golygu a lleoleiddio'r adnoddau i gyd-fynd â chyd-destun dysgu unigryw pob ysgol neu goleg, gan sicrhau perthnasedd i ddysgwyr drwy'r cysyniad Cynefin*.
- **Dulliau rheoli adnoddau personol:** Dangosfwrdd hawdd ei ddefnyddio sy'n galluogi addysgwyr i gael gafael ar eu hoff adnoddau, neu rai maent wedi'u golygu neu eu cadw, fel bod modd canolbwyntio ar y dysgwr a theilwra adnoddau i gwrdd ag anghenion unigol.
- **Galluoedd rhannu syml:** Bydd gan bob adnodd wedi'i deilwra URL unigryw i hwyluso'r broses o rannu a chefnogi dysgu yn y cartref.

Er mwyn gwella'r pecyn hwn, mae CBAC yn gweithio gydag Adnodd, sydd **wedi ymrwymo £500,000** i gynhyrchu deunyddiau cefnogi ychwanegol ar gyfer y cymwysterau hyn.

Edrych i'r dyfodol

Wrth i ni barhau â'n taith i ddatblygu'r ail Don o gymwysterau Gwneud-i-Gymru, rydym yn falch o gadarnhau y bydd ein Tîm Adnoddau Digidol yn cynhyrchu pecyn o adnoddau dwyieithog AM DDIM ar gyfer pob pwnc. Bydd y pecyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth a ddarparwyd ar gyfer cymhwyster y Don gyntaf ac yn cynnwys adnoddau Dysgu Cyfunol a Threfnwyr Gwybodaeth ar gyfer yr ail grŵp o gymwysterau a fydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2026.

Yn 2024/25 gwnaethom gyflawni'r canlynol:

CREU O BECYNNAU ADNODDAU
DWYIEITHOG AM DDIM
325 ar gyfer y cymwysterau
newydd hyn

Darparwyd dros
30 O DDIGWYDDIADAU
AR-LEIN BYW

Darparwyd hyfforddiant
wyneb yn wyneb i dros

6,500
O ADDYSGWYR
LEDLED CYMRU

Ymgysylltwyd â
3,000
O ADDYSGWYR
yn ystod digwyddiadau
briffio manylebau ar-lein

LANSIWYD
GWEFAN NEWYDD
i gynnal y gyfres lawn o
Adnoddau Gwneud-i-Gymru

Darparwyd dros
48
O FODIWLAU DYSGU
ANGHYDAMSEREDIG

ADRAN 03

Llunio dyfodol addysg yng Nghymru



Llunio Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 Cymru: Pam mai CBAC yw'r dewis dibynadwy ar gyfer Addysg 14-16?



“

**Ysgrifennwyd gan
Delyth Jones**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Datblygu Cymwysterau
(Cymwysterau Cyffredinol)

Fel yr unig gorff dyfarnu yng Nghymru sy'n datblygu TGAU fel rhan o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 Cymwysterau Cymru, mae gennym dros 75 mlynedd o brofiad o gyflwyno cymwysterau dwyieithog, gwerthfawr a dibynadwy.

Yn yr erthygl hon, mae Delyth Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Cymwysterau (Cymwysterau Cyffredinol), yn esbonio sut mae ein sefyllfa unigryw wrth ddatblygu TGAU Gwneud-i-Gymru ochr yn ochr â chymwysterau Galwedigaethol a rhai sy'n seiliedig ar Sgiliau yn golygu mai ni yw'r partner naturiol ar gyfer ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Adeiladu ar hanes da o arbenigedd: O TGAU Gwneud-i-Gymru i gyfres gynhwysfawr o gymwysterau

Er bod rhai pobl yn credu mai corff dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol yn unig yw CBAC, mae ein harbenigedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i hyn. Cyn y rhaglen ddiwygio bresennol, gwnaethom sefydlu ein hunain fel datblygwyr cymwysterau Cyffredinol, Galwedigaethol a rhai sy'n seiliedig ar Sgiliau sydd wedi'u teilwra'n arbennig i ddysgwyr Cymru.

Mae'r broses o ddatblygu ein TGAU Gwneud-i-Gymru wedi gwella ein dealltwriaeth o sut gall cymwysterau gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym mewn sefyllfa wych i ddatblygu cymwysterau Sylfaen Cyffredinol ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau y gall dysgwyr ar bob lefel gael mynediad i gymwysterau o ansawdd uchel – fel y TGAU cysylltiedig, bydd y rhain yn seiliedig ar y Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig a'r Egwyddorion Cynnydd.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel yr un mor werthfawr.

Fel yr unig fwrdd sydd eisoes wedi datblygu Cymwysterau Cenedlaethol i ddysgwyr 14-16 oed gyda'n ton gyntaf o TGAU, rydym wedi creu fframweithiau i ystyried sut gall ein cymwysterau gefnogi ysgolion a cholegau i gyflwyno agweddau ehangach ar y Cwricwlwm i Gymru, fel themâu trawsbynciol a sgiliau trawsgwricwlaidd a sut gallwn roi lle i gwricwla sy'n cael eu llunio'n lleol. Gwnaethom hefyd gyflwyno amrywiaeth o asesiadau di-arholiad a gwella cynrychiolaeth ac amrywiaeth y cymwysterau, fel y gall dysgwyr gymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destunau ystyrlon a pherthnasol.

Mae'r profiad cynhwysfawr hwn ar draws pob un o'r cymwysterau yn rhoi safbwynt unigryw i ni ar y cynnig Cymwysterau 14-16 Cenedlaethol, ac yn sicrhau bod pob cymhwyster yn cyfrannu at lwybr cydlynol tuag at wireddu'r Pedwar Diben.

Y Gyfres Sgiliau: Adeiladu ar ddegawd o lwyddiant

Ers cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau yn 2015, mae gennym arbenigedd heb ei debyg mewn cymwysterau sgiliau i ddysgwyr 14-16 oed. Mae gan ein Swyddogion Cefnogi Rhanbarthol berthynas agos gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru, sy'n rhoi adborth gwerthfawr i ni — gwybodaeth rydym yn ei defnyddio'n uniongyrchol i ddatblygu'r Project Personol a'r Gyfres Sgiliau newydd.

Bydd y cymwysterau hyn yn rhoi sgiliau bywyd a gwaith hanfodol i ddysgwyr, ac yn galluogi canolfannau i symud yn hawdd o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae ein portffolio sgiliau yn dangos ehangder sylweddol: o'n Llwybrau at Gyflogaeth i'n Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

Cymwysterau galwedigaethol:
Creu llwybrau gwerthfawr

Rhaid i'n darpariaeth alwedigaethol gael ei hystyried yr un mor werthfawr gan ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr. Gan adeiladu ar ein henw da am ddarparu cymwysterau o ansawdd uchel sy'n wirioneddol gyfoes, rydym yn datblygu'r Dystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) a Chymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith sy'n rhoi gwybodaeth a sgiliau hanfodol i ddysgwyr tra'n ymateb i anghenion diwydiannau Cymru sy'n newid o hyd.

Mae ein cymwysterau Lled-ddargludyddion diweddar — a ddatblygwyd gyda chyflogwyr ac arbenigwyr o fyd diwydiant i gwrdd â gofynion sy'n dod i'r amlwg yn niwydiannau Cymru — yn dangos y gallwn greu cymwysterau sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Cyd-awduro: Hanes da o weithio mewn partneriaeth

Mae cyd-awduro yn sylfaenol i'n dull gweithredu. Dangosodd ein cymwysterau Cynaliadwyedd a ddatblygwyd yn ddiweddar, ac a gafodd eu llunio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, pa mor rymus yw cyd-awduro gwirioneddol ac arweiniodd hyn at gymwysterau sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â gweledigaeth cynaliadwyedd Cymru.

Rydym nawr yn rhoi'r egwyddorion cydweithredol llwyddiannus hyn ar waith gyda sefydliadau allweddol i ddatblygu ein Cyfres Sgiliau.

Ar gyfer y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid.

Mae ein strwythur datblygu yn cynnwys Grwpiau Cyngori Datblygu Cymwysterau ar gyfer pob pwnc, yn ogystal â grwpiau trosfwaol sy'n cynrychioli arweinwyr ysgolion a cholegau, dysgwyr, rhanddeiliaid ac undebau — gan sicrhau bod ein cymwysterau yn cynnig gwerth i holl gymunedau dysgu Cymru.

Rhagoriaeth ddwyieithog:
Darpariaeth gyfartal o'r diwrnod cyntaf

Rydym wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Mae gennym arbenigedd mewnol helaeth ac rydym wedi creu cysylltiadau agos â Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, gan ein galluogi i roi'r arfer gorau ar waith o ran terminoleg cyfrwng Gymraeg.

Pam mae canolfannau yn dewis CBAC?

Mae ein henw da yn golygu mai ni yw'r dewis dibynadwy ar gyfer cymwysterau dwyieithog o ansawdd uchel. Mae ein harbenigedd a'u dull o ddatblygu drwy gyd-awduro yn sicrhau bod ein cymwysterau yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr — gyda llwybrau cynnydd clir i addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau neu gyflogaeth.

Rydym yn darparu cefnogaeth ddwyieithog gynhwysfawr, gan alluogi athrawon i gyflwyno'n hyderus o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Wrth i Ysgolion a Cholegau baratoi i gyflwyno'r gyfres newydd o Gymwysterau Galwedigaethol o fis Medi 2027, mae arnynt angen corff dyfarnu sydd â dealltwriaeth gynhwysfawr o fyd cymwysterau. Mae ein llwyddiant wrth ddatblygu ein TGAU Gwneud-i-Gymru a'n gwybodaeth gynhwysfawr am y Cwricwlwm i Gymru, ynghyd â'n harbenigedd Galwedigaethol a Sgiliau, yn golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r cyfnod hwn o newid. Rydym yn llunio'r dyfodol ac yn sicrhau bod gan bob dysgwr yng Nghymru llwybrau clir i lwyddiant.

Gwneud-i-Gymru

Cydnabod amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn

Mae Rachel Clarke, Cynghorydd Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chyfarwyddwr Apex Educate wedi gweithio ochr yn ochr â Thîm Datblygu Cymwysterau CBAC i ddatblygu ein cyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig. Mae hi wedi cefnogi'r tîm i sicrhau bod y cymwysterau newydd hyn yn ymgorffori amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn. Yma mae hi'n amlinellu sut bydd ein dull arloesol yn cefnogi Cymru amlddiwylliannol a modern ar gyfer dysgwyr heddiw ac yfory.



Ysgrifennwyd gan Rachel Clarke
Cynghorydd Amrywiaeth a
Chynhwysiant a Chyfarwyddwr
Apex Educate

“

Mae dull datblygu CBAC

yn feiddgar ac yn egwyddorol i sicrhau eu bod yn datblygu cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae CBAC wedi croesawu'r thema drawsbynciol o 'Amrywiaeth' gydag ymrwymiad bwriadol i sicrhau nad yw cynhwysiant, amrywiaeth a pherthyn yn docynistaidd ond yn hytrach yn rhywbeth dilys ac mae hyn wedi bod yn bwerus. Ni wnaeth CBAC benderfyniad byrbwyll cyn cychwyn ar y daith i sicrhau bod eu cyfres o gymwysterau yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Yn hytrach, roedd eu hymagwedd yn feddylgar ac wedi'i hystyried yn ofalus. Fe wnaethant ymrwymo i adfyfrio, datblygu a chael dealltwriaeth tymor hir, a arweiniodd yn y pen draw at y cymwysterau yn cael eu datblygu; nid yn unig i ddysgwyr heddiw, ond i Gymru'r dyfodol.

Roedd dylanwad **DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth)** wrth gychwyn sgysiau dyfnach a mwy treiddgar am berthyn yn arwyddocaol. Fel un o'r partneriaid allanol sy'n rhan o'r daith hon, mae fy sefydliad Apex Educate wedi gweld drosto'i hun pa mor ddifrifol y mae CBAC yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Mae CBAC wedi creu lle ar gyfer deialog, herio a chydweithredu ystyrlon.

Mae'r 'gwaith o'r galon' sy'n angenrheidiol ar gyfer ail-ddychmygu'r cymwysterau newydd a'u dyluniad wedi cymell arweinyddiaeth CBAC i sicrhau bod y broses ddatblygu hon wedi'i chynnal yn dda. Felly, mae'r ffordd yr aethpwyd ati (cynllunio mewn perthynas â datblygu staff, gwrando ar farn rhanddeiliaid, adolygu'r diwygiadau yn ofalus) wedi'i fesur a'i gynllunio, sydd wedi bod yn rhan bwysig o'r cynnydd a wnaed. Yn dilyn y Don gyntaf o gymwysterau, mae gwaith wedi dechrau i gwblhau Ton 2 a Thon 3.

Gwnaeth CBAC benderfyniadau beiddgar ynghylch pa destunau a phynciau y dylid eu cynnwys yn eu cymwysterau newydd. Arweiniodd hyn at beidio â chynnwys testunau fel Of Mice and Men yn y fanyleb TGAU Saesneg newydd a chynnwys pynciau mwy byd-eang ac amrywiol yn y TGAU Hanes newydd. Gwnaed dewisiadau ar ôl ystyriaeth ddofn, gwrando gofalus, ac arweiniad gan y rhai sydd wedi byw'r profiad, yn ogystal â mewnbwn gan athrawon a Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nid oedd y penderfyniadau hyn yn ymwneud â sensoriaeth neu ddiystyru hanes, ond maen nhw'n ymwneud â gofyn cwestiynau gwell.



Lleisiau pwy sy'n cael eu cydnabod yn ein hystafelloedd dosbarth a sut?

Straeon pwy sy'n cael eu hadrodd a rhai pwy sydd ar goll?

Mae'r Tîm Datblygu Cymwysterau wedi gweithio'n galed ar ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o gynhwysiant i sicrhau cyfatebiaeth â'r Cwricwlwm i Gymru a bod thema drawsbynciol Amrywiaeth wedi'i phlethu'n ddilys drwy ddyluniad y cymwysterau. Maen nhw wedi ymgymryd â'r her o ddad-ddysgu, aildysgu, a llunio cymwysterau sy'n cyfleu'r byd fel y mae — ac fel y gallai fod. Nid yw amrywiaeth wedi cael ei hychwanegu fel ôl-ystyriaeth. Mae'n dod yn rhan annatod o'r cymwysterau eu hunain.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i sicrhau bod safbwyntiau amrywiaeth eang o bobl (athrawon, uwch arweinwyr, cynrychiolwyr y consortia rhanbarthol ac eraill) yn cael eu clywed a'u hystyried. Mae'r math hwn o arweinyddiaeth yn bwysig. Nid yw'n berfformiadol. Mae'n ymatebol. Mae'n feddylgar ac yn cydnabod bod trawsnewid, pan gaiff ei wneud yn iawn, yn cymryd amser.

Mae cymwysterau Ton 2 a 3 yn cael eu datblygu, ac maent yn cyfleu'r un ymrwymiad i gynhwysiant. Bydd y cymwysterau hyn yn rhoi cyfle cryf i ddysgwyr Cymru ffynnu yn y byd gwaith na allwn ei ddychmygu'n llawn eto. Mae ehangder y sgiliau a ymgorfforwyd a'r cyfleoedd i ddysgu am amrywiaeth o hanesion, hanes menywod, digwyddiadau a materion yn y byd go iawn, yn braf ac yn galonogol i'w gweld ac yn bwrpasol. O fewn cyd-destun byd-eang heddiw o ansicrwydd, mae blaenoriaethu dealltwriaeth a pherthyn, drwy ddysgu gyda'n gilydd ac am ein gilydd yn effeithiol, yn rhoi cenedlaethau'r dyfodol mewn sefyllfa dda; ar gyfer Cymru lle mae pobl ifanc yn tyfu i fyny yn gwybod bod eu hunaniaeth yn bwysig, bod eu straeon yn perthyn, a bod y dyfodol yn eu dwylo nhw.

Mae cydnabod amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn yn hanfodol i sicrhau bod gwerthoedd parch a derbyn yn cael eu gweithredu. Er bod y cymwysterau newydd yn codi cwestiynau i addysgwyr ac yn cyflwyno heriau i'w goresgyn, petawn yn canolbwyntio ar ein dysgwyr, ein gwerthoedd a'n delfrydau cymdeithasol, bydd yr heriau sy'n gysylltiedig â newid yn haws eu goresgyn. Mae CBAC wedi, a bydd yn parhau i ddarparu mecanweithiau cefnogi i randdeiliaid i helpu i'w harwain drwy'r cyfnodau hyn. Oherwydd yn y pen draw, mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond cymwysterau. Mae'n ymwneud â chreu Cymru lle mae pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei weld, ei barchu ac yn barod i ffynnu mewn byd na allwn ei ddychmygu'n llawn eto.

Dyna ddyfodol sy'n werth ei adeiladu.

ADRAN 04

Gweithio gyda'n
gilydd i wneud
gwahaniaeth



Meithrin ein partneriaethau ledled Cymru

Mae CBAC yn credu bod canlyniadau addysgol cadarnhaol yn dechrau gyda chysylltiadau cadarn. Drwy gydol 2024-25, mae ein hymrwymiad i ymgysylltu wedi mynd â ni i bob rhan o Gymru, gan ein cysylltu'n uniongyrchol â phenaethiaid, athrawon, darlithwyr, a dysgwyr. Y cysylltiadau hyn yw sylfaen ein gwaith, gan ein galluogi i ddatblygu cymwysterau a chefnogaeth sydd wir yn gwasanaethu cymuned addysgol Cymru.

Mae ein dull gweithredu yn ymestyn y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol, gan fod cynnal deialog go iawn yn ein helpu i ddeall y gwir heriau sy'n wynebu ystafelloedd dosbarth ledled Cymru; mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i gynnig cefnogaeth wedi'i thargedu lle mae ei hangen fwyaf gan sicrhau bod ein cymwysterau yn dal i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob dysgwr, ac yn eu hysbrydoli.

Gwrando ar y gymuned addysgol a thu hwnt

Mae ymweliadau ag ysgolion a cholegau yn dal i fod yn ganolog i'n strategaeth ymgysylltu, ac yn rhoi mewnwelediadau uniongyrchol ar brofiadau'r ystafell ddosbarth sy'n llywio dyluniad ein cymwysterau a chefnogaeth. Yn 2024-25, rhoddodd yr ymweliadau hyn gyfleoedd i gynnal sgysiau ystyrlon ledled Cymru.

Mae'r ymweliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer deialog. Mae ein cysylltiadau â phenaethiaid, athrawon a dysgwyr yn Ysgol Penglais, Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Gyfun Stanwell, Ysgol Gyfun Caerleon, Ysgol Maesydderwen, Ysgol Gyfun Gŵyr, Partneriaeth Dysgu De Cymru - Rhwydwaith Penaethiaid Uwchradd a chyfarfod gyda phenaethiaid Sir y Fflint a Wrecsam wedi llywio ein dull gweithredu a'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig mewn ffordd uniongyrchol. Mae'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb hyn yn ein helpu i ddeall sut mae ein cymwysterau yn cael eu cyflwyno yn ymarferol ac yn ein galluogi i roi sylw i'r heriau hyn yn uniongyrchol.



Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC



Ymgysylltu â llunwyr polisi

Rydym wedi ymgysylltu â llunwyr polisi, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i dryloywder a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn llawn drwy gydol y broses o ddatblygu cymwysterau Gwneud-i-Gymru. Ym mis Hydref 2024, gwnaethom gyflwyno Sesiwn Briffio i'r Senedd i rannu'n agored y datblygiadau am ein cymwysterau a'n cefnogaeth gyda llunwyr polisi, gan ofyn am eu hadborth a'u sylwadau. Yn dilyn hyn gwnaethom gyflwyno ail Sesiwn Briffio i'r Senedd ym mis Mai 2025 gan sicrhau bod cynrychiolwyr y llywodraeth yn derbyn yr holl wybodaeth fel rhanddeiliaid allweddol yn y trawsnewidiad addysgol hwn.

Dathlu Diwylliant Cymru yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol

Roeddem wrth ein bodd i gyfarfod cannoedd o ddysgwyr, rhieni ac athrawon yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, gan godi ymwybyddiaeth o'n cymwysterau a chysylltu â'r gymuned Gymraeg ei hiaith. Roedd y dathliadau hyn yn gyfle unigryw i ni gysylltu â'r gymuned ehangach mewn lleoliad llai ffurfiol, gan ddangos ein cefnogaeth weithredol i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, tra'n casglu safbwyntiau mewn amgylchedd sy'n dathlu cyflawniadau diwylliannol.



Edrych i'r dyfodol

O ystyried y datblygiadau parhaus a'r ffaith bod ein Ton gyntaf o gymwysterau Gwneud-i-Gymru bellach yn cael eu haddysgu, mae cadw mewn cysylltiad â'n gymuned addysgol yn hollbwysig. Rydym yn parhau yn ymroddedig i sicrhau bod ysgolion a cholegau ledled Cymru yn derbyn yr holl wybodaeth ac wedi'u paratoi ar gyfer y daith addysgol hon.



Mae gwerth yr ymgysylltu hyn wedi'i adlewyrchu yn yr adborth gan arweinwyr ysgolion. Dywedodd Mrs Lucy Purcell, Pennaeth Ysgol Gyfun Caerleon:



Mrs Lucy Purcell,
Pennaeth,
Ysgol Gyfun Caerleon

“

Roedd yn wych cael cyfle i gyfarfod lan yn ein hysgol a sgwrsio ag ef am y gwasanaeth rydyn ni'n ei dderbyn gan CBAC. Roedd lan yn agored ac yn onest iawn, ac fe wnaethon ni drafod unrhyw broblemau rydyn ni wedi'u hwynebu, yn ogystal â'r enghreifftiau niferus lle rydyn ni'n teimlo bod yr ysgol wedi derbyn cefnogaeth dda gan y bwrdd arholi. Fe wnaeth ymgysylltu'n dda iawn â'n dysgwyr ac roedden nhw'n teimlo bod y drafodaeth gydag ef wedi bod yn fuddiol iawn.

Dathlu Mathemategwyr o Gymru Derbynwyd Bwrsari 2024

Sefydlwyd Cynllun Bwrsari Gareth Pierce dair blynedd yn ôl yn 2022 er cof am ein diweddar Brif Weithredwr. Bob blwyddyn, mae'r cynllun yn cefnogi myfyrwyr israddedig sy'n astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi bwrsari o £3,000 i bob unigolyn. Mae'r fenter hon yn dathlu angerdd Gareth am Fathemateg ac Ystadegaeth, yn ogystal â'i eiriolaeth ymroddedig i addysg cyfrwng Gymraeg.

Mae Bwrsari Gareth Pierce yn dal i dyfu mewn poblogrwydd, ac rydym yn falch o gyhoeddi enwau'r tri wnaeth ei dderbyn yn 2024: Iwan Rhys Bryer, Siôn ap Llwyd Dafydd, sydd ill dau yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a Jacob Matthew Redmond, myfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Mae bwrsari Gareth Pierce bellach yn ei drydedd flwyddyn, ac mae ei boblogrwydd cynyddol yn adlewyrchu angerdd Gareth am Fathemateg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ran CBAC, hoffwn longyfarch Jacob, Iwan a Siôn, sydd wedi derbyn y bwrsari nodedig hwn. Pob hwyl iddynt gyda'u hastudiaethau, a gobeithio y bydd y bwrsari'n golygu eu bod yn gallu ffynnu yn eu cyrsiau perthnasol.

Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC



Rwy'n falch fy mod yn gallu astudio rhan o'm cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn apelio at gyflogwyr sydd eisiau sgiliau dwyieithog. Mae'n bwysig iawn fy mod i'n gallu astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i mi allu datblygu fy nherminoleg ac arbenigedd yn y ddwy iaith. Rwy'n ddiolchgar i fy athrawon yn Ysgol Bro Myrddin am fy ysbrydoli i astudio Mathemateg yn y brifysgol, ac i CBAC a'r Coleg Cymraeg am y gefnogaeth.

Iwan Rhys Bryer
o Lanarthne, Sir Gaerfyrddin.



Dewch i wybod mwy:
cbac.co.uk/BwrsariGarethPierce

ADRAN 05

Cydnabod y genhedlaeth nesaf o arloeswyr





Gwobrau Arloesedd: Ysgogi talent ifanc o Gymru

Am dros ddau ddegawd, mae'r Gwobrau Arloesedd wedi dangos rhagoriaeth greadigol dyfeiswyr ifanc o Gymru. Mae'r dathliad arbennig hwn yn parhau ein partneriaeth tymor hir â Llywodraeth Cymru i ddarganfod, dangos, a meithrin y genhedlaeth nesaf o feddylwyr arloesol.

Mae'r gwobrau blynyddol hyn yn trawsnewid Bae Caerdydd yn arddangosfa fywiog o ddyfeisgarwch, lle mae dysgwyr yn dangos bod arloesedd o Gymru — traddodiad a roddodd y microffon modern, technoleg pelydr-X, a radar i'r byd — yn dal i fod mewn dwylo diogel.

O gysyniad i greu

Mae'r Gwobrau Arloesedd yn cynnig llwyfan arbennig iawn ar gyfer dysgwyr Dylunio a Thechnoleg TGAU, UG a Safon Uwch i drawsnewid yr hyn maent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ddyluniadau ymarferol, sy'n datrys problemau. Mae'r gystadleuaeth yn annog pobl ifanc i nodi heriau yn y byd go iawn a datblygu datrysiadau meddylgar a chreadigol.

Yr hyn sy'n gwneud y gwobrau mor arbennig yw gweld sut mae dysgwyr yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol cymhleth drwy ddylunio. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd pwyslais nodedig ar hygyrchedd, cynaliadwyedd, a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n agored i niwed – arwydd bod dyfeiswyr ifanc heddiw yn dylunio gyda diben a thosturi.

Dathlu carreg filltir yn y Senedd

Yn y 24ain seremoni flynyddol, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024 yn y Senedd, croesawyd dyfeiswyr ifanc dawnus o bob rhan o Gymru i arddangos eu dyluniadau arloesol. Roedd y lleoliad mawreddog ym Mae Caerdydd yn gefnlen addas ar gyfer y dathliad arbennig hwn o arloesedd Cymru.

Dangosodd yr ymgeiswyr eleni greadigrwydd eithriadol wrth fynd i'r afael â heriau cyfoes. O offer ymateb brys i dechnoleg gynorthwyol i bobl ag anableddau, roedd y dyfeisiadau yn dangos datrysiadau ymarferol a allai wirioneddol newid bywydau.

Mae'r Gwobrau Arloesedd yn ddigwyddiad pwysig yn ein calendr, ac mae'n ffrind gallu dathlu talent pobl ifanc Cymru wrth iddynt barhau ag etifeddiaeth dyfeiswyr Cymru. Unwaith eto, rydym wrth ein boddau gyda safon y ceisiadau eleni.



Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC

“Rwy’n ddiolchgar iawn fy mod wedi ennill y wobwr UG a’r Enillydd Cyffredinol. Roedd projectau pawb yn hollol anhygoel, felly mae’n gystadleuaeth anodd iawn. Mae’n golygu cymaint i fod yma a chyrraedd y rhestr fer hyd yn oed, felly mae ennill yn anrhydedd.”

Molly Newland

Ysgol Uwchradd Aberteifi

Enillydd UG a’r Enillydd Cyffredinol



Cynnyrch arloesol sy’n achub bywydau yn dod i’r brig

Molly Newland o Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ceredigion oedd enillydd y categori UG a theitl anrhydeddus yr Enillydd Cyffredinol am ei dyluniad arloesol o fwrdd achub. Cafodd ei chanmol gan y beirniaid am ei hagwedd feddylgar tuag at wella adnoddau achub brys, a’r ffordd roedd hi wedi cyfuno nodweddion ymarferol a chreu cynnyrch allai achub bywydau.

Ymhlith y ceisiadau nodedig eraill roedd: bwrdd gwyddbwyll hygyrch i bobl ddall a rhannol ddall, a dyfais sy’n lleddfu crampiau a spasmau i bobl â Chlefyd Niwronau Echddygol — arwydd pellach o’r ffordd mae’r dyfeiswyr ifanc hyn yn dylunio gydag empathi a dealltwriaeth.

Adeiladu ar lwyddiant

Mae’r Gwobrau Arloesedd yn dal i gael effaith barhaus ar ddyfodol y rhai sy’n cymryd rhan. Mae enillwyr blaenorol wedi llwyddo i ddatblygu eu cysyniadau yn gynnyrch dan batent, gan ddangos sut gall y llwyfan hwn lansio gyrfaedd go iawn ym myd arloesedd. Yn ddiweddar derbyniodd Alys Jones, enillydd y categori TGAU yn 2023, hysbysiad “Intention to Grant” gan Swyddfa Eiddo Deallusol y DU am ei dyfais stôl droed symudol — camp arbennig iawn yn y diwydiant patent.

Wrth i ni ddathlu 24 blynedd o’r Gwobrau Arloesedd, rydym yn edrych ymlaen i barhau â’r traddodiad hwn o feithrin creadigrwydd yng Nghymru a gweld sut bydd arloeswyr ifanc heddiw yn llunio ein byd yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gystadleuaeth, ewch i cbac.co.uk/Arloesedd

ADRAN 06

Buddsoddi yn ein pobl a'n planed



Meithrin diwylliant o ymweybyddiaeth amgylcheddol

Fel sefydliad, rydym yn cydnabod yr ôl-troed carbon sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau. Dyna pam ein bod yn rhoi mentrau newydd ar waith a fydd yn lleihau ein heffaith gyffredinol ar yr amgylchedd ac yn meithrin diwylliant cynaliadwy ymhlith ein pobl.

Ein taith tuag at Net Sero

Mae creu dangosfyrddau monitro amgylcheddol ar gyfer ein safleoedd ar Rhodfa'r Gorllewin a Threfforest yn nodi carreg filltir bwysig ar ein taith gynaliadwyedd.

Mae'r systemau monitro hyn yn ein galluogi i weld manylion ein hallyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol a'r egni rydym wedi'i brynu, gan lywio ein llwybr strategol tuag at Net Sero erbyn 2032.

Hyrwyddwyr Gwyrdd: Grymuso arweinyddiaeth amgylcheddol

Mae ein Rhaglen Hyrwyddwyr Gwyrdd yn dal i gryfhau, ac mae 13 o Hyrwyddwyr Amgylcheddol yn dilyn cymhwyster Cynaliadwyedd ar hyn o bryd (gweler y llun isod).

Mae'r fenter hon yn rhoi gwybodaeth sylfaen am gynaliadwyaeth i'n tîm, gan eu galluogi i ehangu eu harbenigedd ac ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Mae ein Hyrwyddwyr yn gweithredu fel eiriolwyr mewnol, gan roi arferion gorau ar waith ac ysbrydoli cydweithwyr i ymddwyn mewn ffordd fwy cynaliadwy ar draws ein gweithrediadau. Maent hefyd yn awgrymu ac yn meddwl am syniadau cynaliadwyedd y gall CBAC eu hadolygu a'u cyflwyno, gan greu ffynhonnell werthfawr o fentrau amgylcheddol.



Lleihau'r defnydd o nwy ar ein safle yn Nhreforest o tua 64,000 kWh drwy drydaneiddio'r system wresogi — digon o egni i wresogi 6 ysgol arferol yn y DU dros aeaf cyfan - gostyngiad o 45% ers ein gwaelodlin yn 2018/19.



Mae ein heffeithlonrwydd egni trydanol wedi gwella 33%, o argraffu 56 i 74 tudalen o bapur A3 / kWh o drydan — gan ostwng ein defnydd o drydan 25% am bob papur arholiad rydym yn ei gynhyrchu, ac arbed digon o drydan i bweru ystafelloedd cyfrifiadurol mewn 20 ysgol am flwyddyn academaidd gyfan.



Buddsoddiad sylweddol o £300,000 mewn systemau goleuo deallus ar ein dau safle.



Meysydd cynnydd allweddol

Mae ein mentrau cynaliadwyedd yn parhau i arwain at ganlyniadau ystyrlon ar draws sawl maes o'n gweithrediadau. **Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:**

Egni adnewyddadwy

Rydym yn falch o gyhoeddi buddsoddiadau sylweddol mewn cynhyrchu egni adnewyddadwy ar ein safleoedd, gan ychwanegu at ein mentrau cynaliadwyedd presennol. Cyn bo hir, byddwn yn gosod paneli solar ar ein safle yn Rhodfa'r Gorllewin, sef buddsoddiad o £98,000 mewn egni glân i'r dyfodol. Bydd y project yn gosod 201 o baneli solar, ac yn cynhyrchu 86 MWh o drydan yn flynyddol – digon i bweru cyfrifiaduron mewn 430 ystafell ddosbarth drwy'r flwyddyn – tra'n sicrhau arbedion CO2e o 17 tonnell y flwyddyn, sy'n gyfwerth â 835 o deithiau bws ysgol yn llai y flwyddyn

Lleihau gwastraff

Mae ein hymrwymiad i leihau gwastraff wedi arwain at bartneriaeth arloesol gyda Manetti, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol bagiau plastig a ddefnyddir ar gyfer papurau arholiad. Yn ystod 2024-25, gwnaethom ailgylchu bron i 1 dunnell o blastig drwy'r rhaglen hon – sy'n gyfwerth â 89,000 o fagiau brechdanau, digon i bacio cinio ysgol ar gyfer bron 500 o ddysgwyr am flwyddyn academaidd gyfan.

Ymgysylltu â chyflenwyr

Gan gydnabod bod ein hôl-troed amgylcheddol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n gweithrediadau uniongyrchol, rydym wedi ymgysylltu fwyfwy â'n prif gyflenwyr ynglŷn ag arferion cynaliadwy. Mae'r ddeialog strategol hon yn canolbwyntio ar ddeall eu proffiliau allyriadau, cael gafael ar ddata amgylcheddol mwy cywir, a chydweithio i nodi dewisiadau eraill mwy cynaliadwy ar gyfer ein cadwyn gyflenwi.

Gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd

Mae ein taith gynaliadwyedd yn dal i fagu momentwm drwy fuddsoddiadau strategol, mentrau arloesol, a dulliau olrhain allyriadau cynhwysfawr.

Mae'r cynnydd sylweddol a nodir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad ein sefydliad cyfan i gyfrifoldeb amgylcheddol ac yn ein gosod ar y llwybr cywir i gyrraedd ein targed allyriadau Net Sero uchelgeisiol erbyn 2032.

Trwy weithio gyda'n gilydd — ar draws adrannau, gyda chyflenwyr, a ledled ein cymuned — rydym yn creu newid ystyrlon sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'n gweithrediadau uniongyrchol.

Ers ymuno â CBAC, mae ymagwedd ragweithiol y sefydliad tuag at gynaliadwyedd wedi gwneud argraff arnaf. Mae ein buddsoddiadau sylweddol i leihau ôl-troed carbon ein cyfleusterau, ynghyd â gwaith allyriadau cynhwysfawr gyda chyflenwyr, yn dangos gwir ymrwymiad i gyfrifoldeb amgylcheddol.

O fentrau ar lefel Cyfarwyddwyr i'n Hyrwyddwyr Gwyrdd Amgylcheddol gwirfoddol sy'n annog gwelliannau ar lawr y gwaith, mae ein hangerdd dros gynaliadwyedd yn amlwg ar draws y sefydliad. Mae'n gyffrous bod yn rhan o gwmni sydd â chyfeiriad amgylcheddol mor glir.



”

Warren Christy

Rheolwr Amgylcheddol,
Iechyd a Diogelwch

Dysgwch fwy am ein cymwysterau cynaliadwyedd yn: cbac.co.uk/Cynaliadwyedd

Arweinwyr cymwysterau dibynadwy

Yr holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi: Hydref 2025

WJEC CBAC Ltd

245 Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd CF5 2YX

Ff: 029 2026 5000

E: gwybodaeth@cbac.co.uk

G: www.cbac.co.uk

Dilynwch ni ar y canlynol

